

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Gorffennaf 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

38. DECHRAU'R CYFARFOD A CHYHOEDDIADAU

Cychwynodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi, ac wedyn safodd y cyfarfod mewn tawelwch i gofio am Mrs Carole Johnson, mam y Cynghorydd A. S. Johnson, a oedd wedi marw'n ddiweddar.

Adroddodd Clerc y Dref yn ffurfiol am ymddiswyddiad Mr Stewart Harris fel cynghorydd tref, gan arwain at swydd wag yn ward Brynhedydd.

39. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes, P. Prendergast ac A. J. Rutherford.

40. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 20fed Mehefin 2018 - Rhifau Cofnod 19-37

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W M Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A R James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Mehefin 2018 - Rhifau Cofnod 6-8

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Gorffennaf 2018 - Rhifau Cofnod 9-12

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 4ydd Gorffennaf 2018 - Rhifau Cofnod 17-31

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mis C L Williams a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

41. **CYFLWYNIAD GAN Y CYN FAER, Y CYNGHORYDD A. R. JAMES**

Cyflwynodd y cyn Faer, y Cynghorydd A R James i Ms Eleri Brady o'r elusen Cymorth Canser Macmillan, siec am £2,099.75 a godwyd yn ystod ei flwyddyn yn y swydd.

Dywedodd Ms Brady ei bod wrth ei bodd yn derbyn y siec ar ran yr elusen, a fyddai'n cael ei defnyddio er budd uniongyrchol pobl sy'n dioddef o ganser.

Llongyfarchodd yr aelodau'r Cynghorydd James ar godi swm mor wych o arian.

42. **ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad a diolchodd i'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd Mrs E M Chard, am fynychu digwyddiadau pan nad oedd hi'n medru. Dywedodd y Cynghorydd Chard ei bod wedi eu mwynhau'n fawr.

Soniodd y Maer am ddathliad G2G Cymunedau CIC, cystadleuaeth talentau Ysgol Tir Morfa a sioe haf Ysgol Ddawns Gogledd Cymru 'Decadance'.

43. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.

Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (27ain Mehefin – 10fed Gorffennaf 2018)

Cyflenwr	Manylion	Rhif Taleb	Dyddiad	Swm £
Ambiwllans Sant Ioan	Cymorth Cyntaf ar gyfer digwyddiad Retro Rhyl 21ain Gorffennaf 2018	543	26/6/18	72.00
A G Mitchell	Perfformiad Retro Rhyl 21ain Gorffennaf 2018	544	28/7/18	1,500.00
Blachere Illuminations	Trwsio goleuadau	545	27/6/18	4,551.93
Handmade Buffet Company	Bwffe Sul Dinesig	546	22/7/18	320.00
Cronfa Elusen Maer Llandudno	Tocynnau noson codi arian thema Casino	547	22/6/18	20.00
Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cinio i gynrychiolwyr yng nghyfarfod 20fed Gorffennaf 2018	548	13/7/18	48.00
Mike Lewis	Llwyfan a llogi generadur ar gyfer Retro Rhyl 21ain Gorffennaf 2018	549	9/7/18	420.00
Cyfanswm Atodlen B				£6,931.93

44. CYFLWYNIAD: CYNNIG BID Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 53 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 2il Mai 2018, croesawodd y Maer ymgynghorwyr Mosaic Partnership Mr Mo Aswat a Ms Sam Jones a'u gwahodd i annerch yr aelodau.

Dywedodd Mr Aswat a Ms Jones:

- Byddai BID y Rhyl yn cael ei sefydlu gyntaf a BID Prestatyn yn dilyn
- Mae mwy na 95 BID yn y DU a 12 yng Nghymru
- Roedd ganddynt lawer o brofiad o drefi arfordirol
- Fel rhan o'r broses BID, daeth busnesau lleol at ei gilydd i benderfynu ar welliannau ychwanegol i'w tref yn ychwanegol i'r rhai a ddarprwyd gan eu hawdurdodau lleol; nid oedd y rhain yn brosiectau 'wow', ond yn welliannau llai
- Roedd ardrethi busnes lleol yn talu am y gwelliannau
- Roedd BID yn para pum mlynedd ar y mwyaf, ac yna roedd pleidlais arall gyda naw allan o ddeg yn dewis adnewyddu'r gwelliannau
- Byddai cynllun busnes yn cael ei gynhyrchu a fyddai'n cael pleidlais gan fusnesau lleol ac roedd angen iddo apelio i'r holl fusnesau, mawr a bach
- Roedd BID yn fyd-eang a dechreuodd yn y 1970au
- O'r 300 BID yn y DU, roedd 50 wedi eu gwrthod
- Byddai'r broses yn cymryd blwyddyn
- Cysylltwyd â 200 o 450 o fusnesau'r Rhyl eisoes
- Roedd Grŵp Gorchwyl BID yn cyfarfod bob mis
- Roedd llawer o ymarferion ymgysylltu lleol mewn amrywiol ffurfiau i gael y cyfranogiad mwyaf
- Ni allai BID wneud yr hyn roedd asiantaethau cyhoeddus yn ei wneud eisoes h.y. yr heddlu, cynghorau tref, cynghorau sir ac ati
- Roedd y cwmni BID yn ddi-elw
- Byddai cynllun busnes y Rhyl wedi ei gwblhau ym mis Medi a byddai pleidlais arno ym mis Hydref/Tachwedd eleni

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Mr Aswat a Ms Jones:

- Byddai pob busnes yn y Rhyl yn cael eu cysylltu
- Roeddynt yn ymwybodol o Gynllun Canol y Dref ac byddai ymlyniant rhwng y ddau gynllun
- Roeddynt wedi arfer gydag amheuan a phwyll gan fusnesau lleol i ddechrau, a dyna pam roeddent yn cysylltu fwy nag unwaith i feithrin ymddiriedaeth ac i annog cyfranogiad
- Roeddynt yn gofyn i bob busnes beth hoffent ei gael yn gyfnewid am y cynnydd yn eu hardrethi busnes, ond yn onest o ran beth oedd / beth nad oedd yn bosibl/debygol
- Roedd busnesau llai yn tueddu i fod eisiau arbedion ar y gwasanaethau roeddynt yn eu derbyn ac roedd busnesau mwy fel rheol eisiau mwy o ddigwyddiadau a marchnata
- Byddai angen cyfiawnhau ffocws daearyddol y manteision drwy gael cydbwysedd rhwng y galw ac o ble roedd yr arian yn dod o ran pa fusnesau
- Roedd BIDiau yn cael eu cefnogi gan ddeddf Seneddol
- Roedd y ffin yn 'feddal' ac yn cael ei gyrru gan gyfranogiad
- Er mwyn cael tegwch roedd gan bob busnes un bleidlais

Diolchodd y Maer i Mr Aswat a Ms Jones am eu hamser.

PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd T Thomas fel cynrychiolydd y cyngor ar y BID.

45. CHRIS RUANE AS – CYFARFOD I DRAFOD WI-FI AR Y STRYD FAWR

Ymhellach i gofnod rhif 5 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 5ed Mehefin 2018, adroddodd y Cynghorydd K. R. Jones iddo fynychu cyfarfod i drafod cyflwyno Wi-fi i ganol y dfref i gyd, nid yn unig y Stryd Fawr.

Dywedodd y Cynghorydd y gellid ystyried y fenter gan y BID fel ychwanegiad i annog pobl i gefnogi busnesau lleol? Gellid olrhain ffonau sy'n cysylltu gyda'r Wi-fi yn ddiennw (ni fyddai unrhyw ddata personol yn cael ei gymryd) i ddangos patrymau ymweld y byddai'n ddefnyddiol eu dadansoddi. Gallai'r cynllun ddenu arian nodd gan fusnesau lleol trwy gael hysbysebion yn ymddangos ar ffonau pobl wrth iddyn nhw fynd heibio?

Byddai pob blwch Wi-Fi yn costio £1,000 a byddai'r ffi sefydlu yn rhyw £20,000.

Ar hyn o bryd, roeddynt yn casglu gwybodaeth, ac nid oedd unrhyw beth wedi ei benderfynu.

Dosbarthodd Clerc y Dref fapiau graddfa fawr o strydoedd canol y dref a gofynnodd i'r aelodau nodi pa strydoedd/ardaloedd roeddynt yn teimlo fyddai'n elwa fwyaf o Wi-Fi am ddim, pe byddai'r fenter yn mynd rhagddi.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn anfon y mapiau ar ôl eu cwblhau i swyddfa Chris Ruane AS yn unol â'r cais.

46. STREETGAMES – CAIS I RODDI CYFLWYNIAD

Adroddodd Clerc y Dref bod Ms Emma Jones, Swyddog Datblygu Gogledd Cymru ar gyfer 'Streetgames' wedi cysylltu â'r Cyngor Tref, ar ôl siarad gyda'r Cynghorydd A. R. James, i ofyn os cawsai roddi cyflwyniad i'r Cyngor Tref.

Roedd peth dryswch ynglŷn â pha fudiad gemau stryd roedd Ms Jones yn ei gynrychioli gan bod mwy nag un eisoes yn gweithredu yn y Rhyl.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn cysylltu ymhellach gyda Ms Jones i gael rhagor o wybodaeth cyn ystyried y cais yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

47. EITEM ER GWYBODAETH: CYNGOR AR BOPETH

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn taflenni gan swyddfa'r Rhyl yn hyrwyddo menter ailgylchu gwisgoedd ysgol rhwng 6ed a 10fed Awst 12.00pm hyd at 2.00pm, a dosbarthodd nhw i'r aelodau er mwyn iddynt fedru hysbysu'r trigolion.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod gwahoddiad i'r aelodau fynychu a gofynnodd iddyn nhw hysbysu Cyngor ar Bopeth ymlaen llaw os dymument wneud hynny.

PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.

48. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

49. **EGWYL MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gymeradwyo trefniadau i ddirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r Cadeiryddion perthnasol, yn ystod egwyl mis Awst, fel a ganlyn:

Materion Dinesig	-	Maer a/neu'r Dirprwy Faer
Materion Cynllunio Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor
Eitemau Pwyllgor SOP SOP	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor
Holl Faterion Eraill	-	Cadeirydd a/neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

PENDERFYNWYD *cadarnhau'r trefnidau*

50. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

51. **COFNODION CYFRINACHOL**

Cyflwynwyd cofnodion (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) y cyfarfod canlynol i'w cadarnhau:

Pwyllgor Cynllunio - 9fed Gorffennaf 2018 - Rhifau Cofnod 14-21
Strategol a Gweithredol

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r cofnodion.*

52. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: